


... ac Ati

***Girl Standing at the Window* neu *Figure at a Window* (1925)
gan Salvador Dali (1904-1989)**



Aros. Mae aros a gobeithio - naddu breuddwydion a hogi dyheadau - yn rhan annatod o'r hyn ydym fel Pobl Dduw. Gobeithio, dyheu, breuddwydio am gyfiawnder ... a heddwch.

*“Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod
bydd pob cyfandir is y rhod
yn eiddo Iesu mawr ...”*

(Wacyn Wyn, 1844-1905. C.Ff. 257)

Gwn yn iawn fod cant a mil o wahanol syniadau am bwy yw hon, ac am beth ... neu bwy ... mae hi'n aros, ond bob tro 'rwy'n gweld y llun hwn 'rwy'n meddwl am yr Eglwys yn aros ... aros. Mae hi'n syllu dros y dŵr i'r lan. Mae'n canolbwyntio ar y tir pell. Mae hi'n chwilio am yr awgrym lleiaf o symud, cadarnhad bod ei hanwylid ar ei ffordd. Mae'n barod. Bu'n barod ers yn hir. Hir bu'r aros hwn.

Cyfnod o aros yw'r Adfent. Cyfle i sefyll wrth ffenestr agored ein ffydd, a syllu dros fôr ein cred tua'r lan fan draw - pa bryd y daw? *“O tyred di, Emanwêl, a datod rwyman ...”* (Eryn Lladin o'r 18fed Ganrif. Cyf. J.D.V.Lewis 1879-1970. C.Ff. 432) dy bobl.

Syllwn drwy ffenest *“Air disglair Duw”* (Graham Kendrick. cyd. Casi Jones C.Ff. 228), dros fôr y newyddion beunyddiol, da a drwg, gan ymbaratoi i groesawu'r hwn sydd yn dod. Fe ddaw. Hir yw'r aros, ond fe ddaw.

Lliw'r Adfent yw glas tywyll, dwfn - union liw'r nos cyn i belydrau cyntaf y wawr sbarduno'r ceiliog i gyhoeddi gwawrio diwrnod newydd sbon.

*“Mae teg oleuni blaen y wawr
o wlad i wlad yn dweud yn awr
fod bore ddydd gerllaw;
mae pen y bryniau'n llawenhau
wrth weld yr haul yn agosáu
a'r nos yn cilio draw.”* (C.Ff. 257)